Michael Lockwood – araith i Gynhadledd Ffederasiwn yr Heddlu
22 Mai 2018

Bore da bawb.

Phill, diolch yn fawr am fy ngwahodd i siarad yn eich cynhadledd eleni – fel y gwyddoch daeth y sefydliad newydd y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu i rym wrth i mi ymuno fel ei Gyfarwyddwr Cyffredinol yn Ionawr eleni [tua 4 mis yn ôl].

Ers Ionawr rwyf wedi treulio cryn dipyn o amser yn gwrando ar bobl yn fy sefydliad ac i nifer ohonoch chi a rhanddeiliaid eraill am eich barnau ar y sefydliad, beth sy'n gweithio a beth sydd ddim, a dwi wedi bod yn ddiolchgar iawn am onestrwydd a didwylledd pobl.

Fe feddyliais y byddai'n ddefnyddiol heddiw pe gallwn sefydlu rhai syniadau cychwynnol o ran ble dwi'n gobeithio mynd â'r sefydliad.

Yn gyntaf, ychydig o ran fy nghefndir fi.

Dwi wedi treulio rhan fwyaf o ngyrfa yn y Sector Cyhoeddus, ac yn benodol mewn Llywodraeth Leol. Dwi wedi bod yn Brif Weithredwr dau gyngor (yn fwyaf diweddar Bwrdeistref Llundain), ble roedd gofyn i mi geisio bodloni disgwyliadau 250,000 o drigolion a 63 o gynghorwyr gyda lleihad o bron i 50% yn ein cyllideb. Roedd hyn yn golygu gwneud penderfyniadau anodd iawn ynghylch ble i roi'r arian cyfyngedig oedd

gennym e.e. gofal cymdeithasol plant/gofal cymdeithasol oedolion a oedd yn allweddol o ran ein cyfrifoldebau diogelu neu ar finiau/trwsio ceudyllau a oedd yn fwy gweladwy i drigolion ac yn fwy tebygol o sicrhau'r ail etholwyd fy nghynghorwyr.

Felly, er nad oes gen i gefndir gyda'r heddlu, hoffwn feddwl fod gen i werthfawrogiad o rai o'r heriau ariannol rydych chi'n wynebu a rhai o'r dewisiadau anodd sy'n rhaid i chi eu gwneud. Yn ystod fy nghyfnod mewn llywodraeth leol, fe weithiais yn agos iawn mewn partneriaeth gyda'r Comander Bwrdeistref lleol a'i dîm ar amrywiaeth o fentrau i helpu lleihau trosedd ac ofn trosedd. Roedd yn flaenoriaeth barhaol i'n trigolion, felly fe geisiais weithio gyda'r heddlu a'r gymuned leol i helpu datrys hyn. Roeddwn i o'r farn erioed nad oedd lleihad mewn troseddau ac ofn o droseddau yn fater i'r heddlu yn unig, ond yn fater i 'ni' ble byddai angen i bawb gydweithio i'w ddatrys orau.

Rhaid i'r ddealltwriaeth yna o'r cyd-destun fod yn allweddol i'r hyn a wnawn yn yr IOPC. Y gair pwysicaf yn ein teitl yw Annibynnol. Dwi wedi bod yn sgwrsio gyda staff am ystyr y gair Annibynnol o fewn ein sefydliad, ac mae'n amrywio'n sylweddol. Rwy'n credu fod ein dechrau newydd fel yr IOPC yn rhoi cyfle i ni ddiffinio'n glir beth mae'n golygu i bawb o'r grwpiau rydym yn gweithio gyda nhw.

I mi, all Annibyniaeth ddim golygu arwahanrwydd a dwi eisiau sicrhau nad yw ein hymgais i fod yn ddiduedd yn golygu ein bod yn creu pellter diangen a niweidiol rhyngom ni ac achwynwyr neu ni a chithau.

Dwi'n awyddus i'm staff gael gwell dealltwriaeth o beth mae'n golygu i fod yn swyddog drylliau, yn yrrwr heddlu, yn rhingyll y ddalfa neu'n gwnstabl ar y stryd. Dwi'n meddwl ei fod yn eu gwneud yn fwy effeithiol ac ystyrlon yn eu gwaith [ac yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r cyd-destun ble maent yn gwneud penderfyniadau].

Dwi hefyd yn awyddus i gael gweithlu sy'n cynnwys croestoriad o brofiadau a chefndiroedd, i roi i ni olwg gyfannol ar ein gwaith. Mae gan tua chwarter ein pobl gefndir gyda'r heddlu.

Mae yna rai sy'n credu na ddylem gyflogi unrhyw gyn swyddogion yn yr IOPC, ond â phob parch, rwy'n anghytuno gyda hynny. Eisoes mae gennym gyfran llawer is o gyn swyddogion na chyrff gwarchod heddluoedd eraill ledled y byd – wedi'r cyfan, does gan dri chwarter ein staff, yn cynnwys finnau a Chyfarwyddwyr Corfforaethol a Rhanbarthol yr IOPC, ddim cefndir gyda'r heddlu. Ond fe wyddom fod cyn swyddogion yn cynnig cryn dipyn o brofiad perthnasol a defnyddiol.

Maent yn deall sut ddylid plismona ac – yn allweddol – sut na ddylid plismona. Fel cyn swyddogion balch, y peth olaf maent am ei weld yw

dwyn anfri ar y swydd o ganlyniad i arferion gwael. Rwy'n credu eu bod yn gryfder i'n sefydliad.

Eleni, 25 mlynedd wedi marwolaeth Stephen Lawrence, rydym wedi cael ein hatgoffa o pam fod angen yr IOPC. Adroddiad Macpherson a ddadleuodd dros gael corff annibynnol oedd yn gyfrifol am system gwynion yr heddlu – gan arwain at greu'r IPCC yn 2004.

Gellir crynhoi'r hyn oedd yn sail i'r dadleuon hynny mewn gair: 'hyder'.

Doedd yna fawr ddim hyder mewn system ble roedd yr heddlu yn ymchwilio eu hunain heb drosolwg annibynnol – yn arbennig yn y cyfnod hwnnw ac yn arbennig ymysg cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Newidiwyd y system i greu corff annibynnol oedd yn gyfrifol am ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol ac oedd â throsolwg dros y system gwynion ehangach. Mae'r IOPC bellach wedi etifeddu'r fantell honno.

Mae hyder yn beth cymhleth a bregus. Does yna ddim fformwla gyfrin a fydd yn gwneud unigolion, cymunedau neu gymdeithas yn gyffredinol yn fwy hyderus yn system gwynion yr heddlu – na phlismona yn fwy eang.

Yn amlwg, mae ein hannibyniaeth yn ganolog i'r mater, ond mae annibyniaeth yn beth anodd ei ddiffinio ac yn anoddach byth i'w brofi. I weld tystiolaeth o hyn, does dim ond angen edrych ar ein ffrwd Twitter.

Rydym yn sefydliad sy'n ennyn barnau cryf. Efallai na fydd yn syndod i chi wybod ein bod yn clywed llawer o sylwadau gan swyddogion sy'n gwasanaethu a chyn swyddogion. Nid yw pob un yn gefnogol i ni! Rydym ‘yn mynd ar ôl plismyn’ ac yn ‘ffrind i droseddwyr’. Ond byddwn hefyd yn cael ein beirniadu gan rai o aelodau’r cyhoedd sydd yr un mor ddig. Rydym yn ‘cuddio drygau plismyn,’ ac yn ‘ffrind i’r heddlu,’ rydym yn ‘unllygeidiog a di-rym’.

Fel erioed, mae annibyniaeth yn farn bersonol - a bydd pobl gyda barn bendant yn bachu ar yr achosion sy'n cefnogi eu barn ac yn anwybyddu’r rhai nad ydynt. Mae un peth yn sicr - os byddwn ni'n poeni am fod yn boblogaidd, fyddwn ni ddim yn ennill.

Ond parch – gan bob ochr – yw beth hoffwn ei ennill. Mae newid o’r IPCC i’r IOPC yn fwy na dim ond logo newydd. Rwy'n awyddus i ddatblygu strategaeth newydd ac ymagwedd newydd – un rwy'n gobeithio fydd yn cael ei pharchu ar bob ochr i’r drafodaeth blismona.

Rhaid i ni fod yn wirioneddol ddiduedd yn ein gwaith a’n penderfyniadau; yn annibynnol o'r heddlu, annibynnol o deuluoedd a chymunedau ac yn annibynnol o'r llywodraeth. Rhaid i ni ddilyn ble mae’r dystiolaeth yn ein harwain.

Ond fel y dywedais, nid yw annibyniaeth yn golygu arwahanrwydd. Mae angen i ni ddeall ym mha gyd-destun ydych chi’n gweithio, ond rydym

hefyd angen deall cyd-destun y cymunedau rydych chi'n plismona a'r pryderon sydd ganddynt am blismona modern.

Nid yw bod yn amhleidiol yn golygu na ddylem gymryd rhan mewn ymarferion hyfforddiant ochr yn ochr â swyddogion yr heddlu, fel yr ydym eisoes wedi gwneud ym maes gwrthderfysgaeth, ond nid yw ychwaith yn golygu na allwn gwrdd ag ymgyrchwyr cymunedol i siarad am stopio a chwilio; neu na ddylem ddatblygu perthnasau cefnogol a phroffesiynol gyda theuluoedd mewn profedigaeth, trwy ein tîm cyswllt teuluol.

Dydy annibyniaeth ddim yn golygu ein bod yn byw mewn tŵr ifori, fe ddaw o reoli ein holl berthnasau mewn ffordd synhwyrol a phroffesiynol.

Fyddwn ni ddim yn cytuno ar bopeth. Ac ni fydd yr IOPC yn boblogaidd gan bawb ar bob adeg. Ond dwi'n gobeithio y bydd ffocws llwyr ar wir amhleidioldeb, ynghyd â gwell gwrando a gwell perthnasau gyda chymunedau a chithau, yn ein helpu i ennill parch o bob ochr, hyd yn oed mewn anghytundeb.

Felly mae ein hannibyniaeth yn chwarae rôl o ran magu hyder yn y system. Ond bydd hyder hefyd wedi ei lunio gan y gwaith a wnawn. Ac fe hoffwn i'n hymagwedd i'r gwaith hwnnw newid.

Mae gennym dasg glir i'w chwblhau.

Rydym yn ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â'r heddlu a chyhuddiadau difrifol yn erbyn swyddogion. Rydym hefyd yn dyfarnu pan fydd y cyhoedd yn apelio yn erbyn penderfyniadau mae heddluoedd eu hunain yn wneud, wrth ddelio gyda'r nifer o filoedd o gwynion nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer atgyfeirio i ni ac sy'n cael eu datrys yn lleol.

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, dyna ni.

Nid ydym yn barnu na dedfrydu. Rydym yn rhoi ein barn, yn seiliedig ar dystiolaeth, ond nid ydym yn dod i gasgliadau am ymddygiad Swyddogion. Nid ydym yn gyfrifol am baneli disgyblu na chosbau, am benderfyniadau cyhuddo nac ataliadau.

Rydym yn rhan bwysig o system gyda nifer o chwaraewyr gwahanol.

Rydym yn ymwneud ag atebolrwydd yng ngwasanaeth yr heddlu. Rydym yn bodoli i weld y gellir dal swyddogion yn atebol, ble fo angen, am eu gweithredoedd – hyd yn oed i'r pwynt o gosb disgyblu neu yn achlysurol droseddol. Dyma ein gwaith bara menyn, ac mae'n allweddol bwysig ar gyfer hyder y cyhoedd. Heb atebolrwydd, byddwn yn colli ffydd y cyhoedd yn y system.

A does gen i ddim ofn dal swyddogion yr heddlu sy'n camweithredu yn atebol. Yn fy marn i – a chithau mi wn – nid yw Swyddogion sy'n

gwyrdroi'r gyfraith y maent wedi addo ei chynnal; sy'n bwlio a gwahaniaethu; sy'n camddefnyddio ei sefyllfa ar gyfer enillion ariannol neu rywiol neu sy'n ddybryd o esgeulus i'r pwynt eu bod yn peryglu bywydau yn ffit i wisgo eich lifrai ac maent yn achosi niwed i enw da'r mwyafrif helaeth o'r swyddogion dewr ac ymroddedig yr ydych yn eu cynrychioli.

Fodd bynnag, mi wn – ac fe wyddoch chi - y bydd rhai swyddogion yn cael eu hunain dan ymchwiliad oherwydd iddynt wneud camgymeriad. Nid oherwydd malais nac esgeulustod dybryd, ond oherwydd camgymeriad, a wnaed dan bwysau. Fel chi, dwi ddim eisiau gweld swyddogion yn cael eu cosbi oherwydd camgymeriad gwirioneddol os byddai'n well delio â'r mater fel cyfle i ddysgu a gwella.

Fodd bynnag, nid yw'r llinell rhwng camgymeriad a chamymddygiad yn glir ar bob adeg.

Mae nifer o'r rhai yr wyf wedi sgwrsio â nhw wedi cefnogi'r angen am wella dull o ddelio â pherfformiad anfoddhaol yn yr heddlu, fel bod camgymeriadau a pherfformiad gwael yn cael ei gydnabod a thrin felly - a'r llwybr disgyblaethol yn canolbwyntio ar y materion mwyaf difrifol.

Nid yw nifer o'n hymchwiliadau yn cychwyn fel ymchwiliadau ymddygiad, ac mewn achosion o farwolaethau ac anafiadau difrifol, mae'n hymchwiliadau yn aml yn canfod fod swyddogion wedi ymddwyn yn

briodol – mae hyn yn aml yn wir gyda digwyddiadau saethu, er enghraifft.

Weithiau, bydd ein hymchwiliadau yn canfod fod y llinell ‘camymddwyn’ wedi ei chroesi. Mewn geiriau eraill, mae yna ‘achos i’w ateb’ sydd angen ei archwilio mewn gwrandawiad disgyblu. Weithiau gall yr achosion hyn arwain at gosbau ac weithiau ni fydd yr achos yn erbyn y swyddog wedi ei brofi a bydd ef neu hi yn glir o fai.

Nid yw clirio enw swyddog yn golygu fod gwall yn yr ymchwiliad, neu na ddylai'r gwrandawiad fod wedi digwydd – yn ddim mwy nag y mae dedfryd ‘dieuog’ mewn achos sifil yn golygu fod eich ymchwiliad chi yn wastraff amser. Mae’r system wedi gweithio ac fe graffwyd yn briodol ar y digwyddiad.

Mi wn y gall fod yn brofiad anodd iawn i'r swyddogion dan sylw – ond hefyd i'r teulu, sy'n awyddus iawn i gael atebion.

Fodd bynnag, efallai y bydd y sefyllfa wedi ei gwaethygu os bydd eu bywydau yn dod i stop am gyfnod rhy hir, wrth aros am ganlyniad.

Yr un feirniadaeth fwyaf a gawsom yn y gorffennol, yw faint o amser a gymer i gwblhau ymchwiliadau. Y pennawd gennych chi yw ein bod yn fiwrocrataidd ac araf. Ni fydd yn eich synnu i glywed y bydd taclo'r mater hwn yn flaenoriaeth fawr i mi.

Rydym angen gwneud yn well fel sefydliad, ac mae nifer o newidiadau eisoes ar waith i gyflymu ein prosesau o ran sut fyddwn yn neilltuo achosion, cadw'r un ymchwilydd, darparu adnoddau i ymchwiliadau, prosesu apeliadau, drafftio adroddiadau a gwella ein perthynas gydag adrannau safonau proffesiynol. Gallaf ddweud wrthych heddiw: rydym nawr yn cwblhau oddeutu traean o'n hymchwiliadau o fewn chwe mis ac oddeutu dau draean o fewn blwyddyn a bod cynnydd da ar waith. Am y tro cyntaf y llynedd (ers 2011/12), fe wnaethom gau mwy o achosion nag yr agorom – ac yn benodol roedd y gyfradd cau i fyny dros 60% o'r flwyddyn flaenorol.

Ond byddwch yn gwbl gyfiawn wrth ymateb gydag achosion y gwyddoch amdanynt, ble mae swyddog wedi bod dan ymchwiliad yn llawer rhy hir ac effaith hyn ar y swyddog a'i deulu. Ac mae straeon yn drech nag ystadegau bob tro. Ond rydym yn cyflymu ac rwy'n benderfynol y byddwn yn parhau i wneud hynny.

Mae yna hefyd, fel byddwch yn fy atgoffa, nifer o ymchwiliadau a etifeddwyd yn dyddio yn ôl flynyddoedd cyn sefydlu'r IOPC, yr wyf yn benderfynol o'u cwblhau - ond mae hyn yn anoddach nag y dymunwn. Mae ganddynt broffil uchel, maent yn gymhleth ac yn cynnwys llu o brosesau a chwaraewyr eraill – ond rhaid i ni geisio rhoi terfyn arnynt cyn gynted â phosibl.

Gan ystyried prydlondeb, rwyf wedi gwirfoddoli gwneud darn o waith i'r Bwrdd Gweinidogol ar farwolaethau yn y ddalfa, gan edrych ar draws y system i nodi'r holl ryngweithiadau/pwyntiau trosglwyddo sy'n cyfrannu at oedi mewn ymchwiliadau. Mae hynny'n cynnwys rôl heddluoedd (yr amser a gymer i gynnal cyfweliadau, yr oedi o ran penderfyniadau gan yr awdurdod priodol neu'r oedi wrth drefnu gwrandawiad); oedi mewn patholeg, penderfyniadau'r CPS, achosion y Crwner a llawer mwy. Rwy'n barod iawn i dderbyn bod yn rhaid i'm sefydliad arwain trwy esiampl (ac mi fyddwn) ond fel y gallwch werthfawrogi nid ni yw'r unig ran o'r broses.

A byddaf yn taflu her adeiladol yn ôl i chi, fel cynrychiolwyr y Ffederasiwn. Rwyf eisiau cyflymu ymchwiliadau achwynwyr a swyddogion. Gallwch fy helpu o ran hynny trwy annog cydweithrediad gyda'n hymchwiliadau, cyn belled â phosibl.

Mae cydweithrediad gan dystion yn gwneud gwahaniaeth enfawr i gyflymder ein cynnydd mewn ymchwiliad. I ni, mae disgrifiadau tystion yr heddlu yn allweddol a phan ddaw'r rhain yn gyflym, fel sy'n digwydd yn aml, mae'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Mi ddarllena i hyn, gan un o'n tîm a ymchwiliodd i saethu gwn ar ddamwain:

“O ddyddiad y digwyddiad, cwblhawyd yr adroddiad o fewn pythefnos gyda chymorth cydweithrediad gan yr heddlu. Cefais wahoddiad i’r uned drylliau a chyfarfod â phennaeth yr uned a’r prif hyfforddwr, a roddodd daith i ni a siarad yn faith am hyfforddiant a phrosesau.

“Fe wnaethant hefyd hwyluso mynediad at unrhyw wybodaeth oedd angen. Fe geisiais ymgysylltu'n gynnar â’r Ffederasiwn ac fe roddodd PC X ddisgrifiad ysgrifenedig manwl. Felly, roedd gen i'r holl wybodaeth oedd ei hangen o fewn cyfnod byr o amser a gallais gwblhau'r ymchwiliad yn gyflym iawn.”

Rwy'n deall gan fy nhîm fod y lefel yma o gydweithrediad nawr yn llawer mwy cyffredin a’n bod yn aml yn cael perthynas weithredol dda iawn gyda chynrychiolwyr y Ffederasiwn, rhywbeth rwy'n ddiolchgar iawn amdano.

Fodd bynnag, nid yw’r lefel yma o gydweithrediad a chymorth yn hollol gyffredinol ac os yw swyddogion, gyda chefnogaeth cynrychiolwyr y Ffederasiwn, yn oedi presenoldeb mewn cyfweliad, yn gwrthod rhoi sylw ac yn mynnu ymateb yn ysgrifenedig, byddwch yn gwerthfawrogi ei fod yn llesteirio cynnydd ac y gall ychwanegu wythnosau, hyd yn oed misoedd, i ymchwiliad yr hoffem ei gwblhau'n gyflym.

Er enghraifft, ymchwiliad i ymateb heddlu i farwolaeth – pan roddodd pob un o’r deg swyddog oedd yn bresennol ddisgrifiad dwy linell unfath

o’r weithdrefn wedi’r digwyddiad – i gyd fwy neu lai'n dweud: “Roeddwn i yno.”

Neu’r ymchwiliad i ddigwyddiad Taser, ble gwrthododd y swyddogion ateb cwestiynau, er gwaethaf bod yn dystion, ac yna cyflwyno atebion ysgrifenedig i gwestiynau dethol yn unig yn hytrach na darparu naratif rhesymegol. Pan ofynnwyd beth oeddem yn ei wneud i dawelu tensiynau cymunedol, roedd rhaid cyfaddef na allem wneud unrhyw beth ystyrlon, oherwydd nad oedd gennym unrhyw ddisgrifiad o weithredoedd y swyddogion.

Yn amlwg mae pob ymchwiliad yn wahanol ac mae ganddynt eu cymhlethdodau eu hunain, ond gobeithiaf y gallwn gydweithio hyd yn oed yn well gyda’n gilydd. Mi wn fod dipyn o waith wedi ei wneud ar hyd y blynyddoedd i wella ein perthynas weithredol, ac mae hyn wedi cynnwys sgyrsiau agored ynghylch eich pryderon chi a ninnau, ac rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Mae Phil a’i dîm wedi bod yn ganolog i hyn, ac rwy'n diolch iddynt am eu hymagwedd i weithio gyda ni. Bydd Thea Walton o’r IOPC yn eich diweddaru heddiw ar y gwaith hwnnw a beth fyddwn ni'n ei wneud i wella ein perthynas tuag at y parch rhwng ein gilydd y crybwyllais yn gynharach.

Yn ogystal â chyflymu ein hymchwiliadau, rwyf hefyd yn benderfynol y byddwn yn gwella ansawdd y gwaith yr ydych hefyd wedi ei grybwyll.

Rwyf wedi gofyn am adolygiad o ansawdd ar draws y sefydliad oherwydd fy mod yn credu y gallwn wella. Bydd Thea yn rhannu rhywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud i wrando ac ymateb i adborth a sicrhau bod anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth - yn cynnwys chithau sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau - yn hysbysu sut ydyn ni'n gwneud ein gwaith.

Un fenter rydw i'n awyddus i weld yn symud ymlaen yn gyflym yw cyflwyno rhwydweithiau ar bynciau penodol – pwyntiau cyswllt yn ein sefydliad a fydd â'r arbenigedd diweddaraf mewn meysydd allweddol megis: marwolaethau yn y ddalfa, digwyddiadau traffig ffordd, iechyd meddwl, cam-drin domestig, Taser a grym llai marwol arall, datgeliad a gwahaniaethu.

Nod y 'rhwydweithiau pynciau penodol' hyn yw gwella uno'r hyn a ddysgwn o'n hymchwiliadau, i weithio gyda'r Coleg Plismona, arweinyddion NPCC ac elusennau allweddol, a grwpiau arbenigol i'n helpu i wella ein hymarfer ymchwiliol ac ansawdd ein penderfyniadau. Dwi eisiau iddyn nhw gael yr arbenigedd a gwybodaeth ddiweddaraf yn y meysydd allweddol hyn a sicrhau y gallwn siarad yn well ag awdurdod ar amrywiaeth o faterion plismona critigol.

Bydd yr IOPC newydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i wella prydlondeb ac ansawdd, ond yn achos y cyntaf, nid ni yw'r unig elfen yn y system a byddwn angen eich helpu chi a chefnogaeth gan eraill.

Cyn i mi ymuno â'r IOPC, cefais fy secondio i weithio ar adladd tân Grenfell yn rhan o Dîm Ymateb Grenfell. Roeddwn yn gyfrifol am gydlynu'r ymateb ar gyfer safle'r Tŵr, gan weithio gyda chontractwyr, heddlu - DVI/tîm fforensig ac ati. Fe weithiais hefyd ar ymgysylltu cymunedol a chyswllt teuluol gyda'r rhai mewn galar a goroeswyr [gan weithio gyda'r Flo's]. Dyna un o'r rhesymau pam fod y gwaith cyswllt teuluol a wnawn mor bersonol bwysig i mi.

Rwy'n awyddus iawn yn dilyn marwolaeth ein bod yn darparu Rheolwr Cyswllt Teulu ar y safle o fewn 24 awr os mai dyna mae'r teulu ei eisiau, a bod yr un unigolyn hwnnw yn parhau i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer yr ymchwiliad cyfan i ddarparu cefnogaeth a meithrin ymddiriedaeth.

Gan ddefnyddio ein strwythurau rhanbarthol, byddaf hefyd eisiau i'r sefydliad edrych mwy tuag allan, gwella ei weledded, gwneud y gymuned leol yn fwy ymwybodol o'n bodolaeth. Rydym angen datblygu perthnasau'n rhagweithiol gyda llunwyr barn allweddol/grwpiau cymunedol, ac yna'n ddelfrydol nid yma'r tro cyntaf iddynt ein gweld pan fydd unrhyw fater yn codi.

Yr hyn a ddysgais o wrando ar deuluoedd Grenfell oedd, oeddent – roeddent eisiau gweld cyfiawnder: - am bopeth roeddynt wedi ei ddioddef a'i golli. Ond yn bwysicaf oll, roeddynt am i wersi gael eu dysgu. Roeddynt eisiau sicrhau na fyddai fyth yn digwydd eto. Mae'n neges a glywn yn yr IOPC dro ar ôl tro gan achwynwyr a theuluoedd mewn galar.

Mae'r drafodaeth 'bai neu ddysgu' o fewn plismona yn un rwy'n siŵr eich bod yn gyfarwydd â hi. Fe soniodd Phill yn gywir iawn am hyn yn ei gyflwyniad. I mi, rwyf eisiau rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu gyda'r amcan fod newid yn digwydd ar lawr gwlad ac wrth i ni newid ein hymarfer.

Rwy'n dweud wrth fy nghydweithwyr mai'r ddau beth y gallwn ei wneud i wella hyder yn system gwynion yr heddlu yw yn gyntaf i arddangos atebolrwydd pan fydd pethau wedi mynd o chwith, ond yn ail ac yn bwysig, i sicrhau newid trwy ddysgu a cheisio osgoi gweld hyn yn digwydd eto. Rydym yn gwneud argymhellion dysgu i heddluoedd yn rheolaidd, yn deillio o'n hymchwiliadau – ac weithiau fe wneir yr argymhellion hyn yn genedlaethol, i wella ymarfer plismona ar draws Cymru a Lloegr. Dwi eisiau gwneud mwy i gipio ein dysgu oddi ar draws y sefydliad, sydd ar hyn o bryd yn go ranedig, a'i wneud yn fwy thematig. A dwi eisiau adolygu ein hargymhellion a'r Bwletin Dysgu'r Gwersi i'w gwneud hyd yn oed yn fwy defnyddiol i chi.

Ond rwy'n credu bod gwaith yn y maes hwn wedi ei lesteirio'n rhannol gan y modd rydym wedi ein llunio fel sefydliad. Pan ehangwyd yr IPCC, cafodd y dasg o gyflawni llawer iawn mwy o ymchwiliadau.

Rydym wedi bod yn ymdrechu i gael y niferoedd i fyny, ac mae hynny wedi golygu ein bod wedi tueddu i fesur ein cynnydd o ran y nifer o ymchwiliadau a gychwynnwn.

Os ydym am chwarae rôl allweddol yn yr agenda dysgu – o ran gwneud i newid ddigwydd fel bod plismona yn dysgu o gamgymeriadau, mae angen i ni fod yn llawer mwy ystyrlon ynghylch y gwaith a wnawn.

Dim ond os yw'r materion yn ddigon difrifol i fod angen ymchwiliad annibynnol ddylem gymryd rhan, neu os y'u pennir i fod yn sensitif am eu bod yn effeithio ar hyder y cyhoedd yn ehangach neu gymunedau penodol. Dylem flaenoriaethu achosion ble bydd gan oblygiadau'r digwyddiad effaith genedlaethol, neu ble mae cyfle i grynhoi dysgu a fydd yn gwella arferion yr heddlu.

Credaf y bydd cael mwy o ffocws yn ein dull gweithredu yn golygu y bydd modd cyfeirio rhywfaint o gapasiti tuag at wella ein cynnig dysgu. Trwy fy nhrafodaethau gyda'r Coleg Plismona, HMICFRS, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, cynrychiolwyr cymunedol a sefydliadau ymgyrchu – yn ogystal â thrwy ddadansoddi nifer o arolygon a thrafodaethau a gynhaliwyd yn y gorffennol agos – rwy'n llunio rhestr o

feysydd thematig sy'n bwysig i'r cyhoedd ac i'r teulu plismona, a thrwy edrych arnynt gallwn wella hyder y cyhoedd ymhellach yn y system cyfiawnder troseddol a gobeithio eich helpu chi i ddysgu mewn rhai meysydd o bwys. Rwy'n cynnig y gallai'r themâu hyn gynnwys:

- **Camddefnyddio awdurdod ar gyfer enillion rhywiol neu ariannol** – maes blaenoriaeth o fewn plismona ac un sy'n debygol o gynyddu gyda chynnydd cyfryngau cymdeithasol. Mae'n faes yr wyf yn gobeithio y byddaf yn gallu gweithio ar y cyd gyda'r Coleg a HMICFRS arno.
- **Gwahaniaethu** – yn uchel ar yr agenda ar bob adeg ar draws y cymunedau y byddwch yn plismona. Roedd bron i 14% o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd ers Ebrill 2016 yn cynnwys elfen o wahaniaethu posibl, gan ei wneud yn un o'r materion mwyaf cyffredin yn ein hachosion. Mae'n broblem sylweddol o ran hyder y cyhoedd yn yr heddlu.
- **Materion iechyd meddwl** – yn ffactor mewn marwolaeth yn y ddalfa ac amrywiaeth o achosion eraill yn llawer rhy aml. (Yn 2016/17, roedd gan 8 o 14 o farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt gyda'r heddlu broblemau iechyd meddwl hysbys). Mae hyn yn faes sy'n peri gofid i bob un o'n rhanddeiliaid allweddol, y

cyhoedd, a chithau yn arbennig. Mae pawb yn cytuno fod yna gyfleoedd mawr i ddysgu a gwella.

- **Digwyddiadau traffig ffordd** – testun cryn drafod. Roedd y nifer o bobl a laddwyd yn 2016/17 yn ystod ymlid gan yr heddlu'r uchaf ers degawd, ac roedd dau draean yn deithwyr, gwyliedyddion neu ddefnyddwyr ffordd eraill.
- **Cam-drin Domestig** – yn warth cudd ers llawer rhy hir. Mae hyn yn faes ble rydym oll yn credu fod dysgu i'w wneud ac mae'r cyhoedd yn ei nodi fel blaenoriaeth.
- Ac **Achosion agos yn y ddalfa** – cyfle gwirioneddol i ddysgu ac atal marwolaethau yn y dyfodol.

Fyddwn ni ddim yn datrys y materion hyn mewn blwyddyn ac fe hoffem weithio gyda chi a phartneriaid eraill i gytuno ar ba agweddau mae angen i ni ganolbwyntio arnynt yn y meysydd thematig hyn. Wrth i'r ymagwedd thematig ddatblygu, gallem edrych ar themâu sy'n well adlewyrchiad o flaenoriaethau lleol ar draws Cymru a Lloegr.

I mi, dim ond rhan o'r darlun yw atebolrwydd. Bydd rhannu ein syniadau; gwneud argymhellion a chyflwyno newid, yn sicrhau ein bod wir yn effeithio ar hyder y cyhoedd yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn fy marn i, targedu ein hymdrechion ar y meysydd hyn - ynghyd â'n gwaith

parhaus i ymchwilio i farwolaethau ac anafiadau difrifol, yw'r ffordd orau i daclo'r agenda newydd hon.

Ond ni allwn wneud y gwaith yma ar ein pennau ein hunain. Mae'r busnes hyder yn fenter ar y cyd.

Fel cynrychiolwyr y Ffederasiwn, mae yna lawer y gallwch ei wneud i helpu mewnosod y newidiadau dysgu sy'n deillio o'n gwaith yn eich heddluoedd, fel bod y cyhoedd yn elwa o ran y gwasanaeth a dderbyniont, mae'ch aelodau yn llai tebygol o wneud yr un camgymeriadau yn y dyfodol a cheir gwell dealltwriaeth o gamymddwyn ar draws y proffesiwn.

Mae gennym stondin yma heddiw, yn canolbwyntio ar ein gwaith i rannu dysgu a hyrwyddo newid – yn arbennig trwy ein bwletin 'Dysgu'r Gwersi', sy'n cael ei ganmol yn fawr gan adrannau safonau proffesiynol. Cymerwch olwg os gwelwch yn dda.

Mi wn fod Phill ac eraill yn cymryd rhan yn yr un trafodaethau parhaus â ninnau. Dwi'n meddwl y gall pob un ohonom gytuno fod symud tuag at ddiwylliant dysgu sy'n defnyddio cwynion i lunio hyfforddiant a datblygiad ein swyddogion heddlu yn fwy ffafriol na diwylliant sy'n credu fod yna swyddog unigol ar fai pob tro. Er ein gwahaniaethau, rwy'n credu (gobeithio) fod yna dir cyffredin i ni adeiladu arno.

Os gallwn ni: fel yr IOPC, fel heddluoedd, fel y Ffederasiwn, arddangos pan fydd pethau yn mynd o chwith fod yna atebolrwydd a newid trwy ddysgu – yna fyddwn ni ddim yn gwella hyder yn y system gwynion yn unig; byddwn yn gwella hyder y cyhoedd mewn plismona ei hun.

Gobeithiaf fod hynny'n nod y gall pawb ohonom ei gefnogi.

Diolch.